# Cynghrair Gwaith Ieuenctid Cymru

Cyfraniad gwaith ieuenctid i'r Rhaglen ar gyfer Llywodraethu yng Nghymru

Tachwedd 2013

## Cefndir

Mae Cynghrair Gwaith Ieuenctid Cymru yn fforwm annibynnol ac ynddo aelodau sy'n cynrychioli cyrff megis Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Phwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru  Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn hybu cyfleoedd i ddysgu trwy ddulliau anffurfiol a lled ffurfiol fel ei gilydd yn unol â'r Safonau Galwedigaethol Gwladol ar gyfer gwaith ieuenctid a Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion, sy'n amlinellu prif egwyddorion gwaith o'r fath yng Nghymru.

## Diben y papur hwn

Nod hyn o bapur yw dangos ble a sut mae gwaith ieuenctid yn gallu helpu i gyflawni polisïau ehangach Llywodraeth Cymru trwy wella byd pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed.  Nid nodi meysydd newydd na phennu ehangder gwaith ieuenctid yw'r diben, ond tynnu sylw at y rôl bresennol – **sy'n ffordd benodol o weithio gyda'r ifainc** – ynglŷn â helpu i gyflawni a chryfhau polisïau Llywodraeth Cymru.

## Beth yw gwaith ieuenctid?

Prif ddiben gwaith ieuenctid yw 'galluogi pobl ifanc i ddatblygu'n gyfannol – gan weithio gyda nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol fel y gallan nhw feithrin eu llais, eu dylanwad a'u priod le yn y gymdeithas a chyflawni eu llawn dwf'.  Y Safonau Galwedigaethol Gwladol ar gyfer gwaith ieuenctid.

## Polisïau Llywodraeth Cymru

Prif gytundeb Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw'r Rhaglen Lywodraethu sy'n nodi trywydd ar gyfer tymor presennol y Cynulliad gan ddangos gwir ymrwymiad i gael y maen i'r wal heb ddodi cymaint o bwyslais ar fesur llwyddiant trwy faint o arian sydd wedi'i wario a nifer y polisïau sydd wedi'u rhoi ar waith (yn hytrach na gwir effaith y llywodraeth ar fywydau pobl).

Dyma agweddau Rhaglen Llywodraeth Cymru:

- Twf a swyddi cynaladwy
- Gwasanaethau cyhoeddus
- Gofal iechyd yn yr 21ain ganrif
- Addysg
- Rhaglen 'Cefnogi Pobl'
- Cartrefi Cymru
- Cymunedau mwy diogel
- Cydraddoldeb
- Trechu tlodi
- Cymunedau gwledig
- Yr amgylchedd a chynaladwyedd
- Diwylliant a threftadaeth Cymru

Mae'r rhaglen wedi'i seilio ar egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb a hawliau.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r amryw agweddau trwy'r pynciau a'r is bolisïau isod:

- Busnes a'r economi
- Plant a phobl ifanc
- Materion diwylliannol a chwaraeon
- Cydraddoldeb ac amrywioldeb
- Addysg a medrau
- Cynllunio
- Ystadegau
- Yr amgylchedd a chefn gwlad
- Llywodraeth leol
- Pobl hŷn
- Cyfiawnder cymdeithasol
- Gofal iechyd a chymdeithasol
- Tai a chymunedau
- Gwella gwasanaethau cyhoeddus
- Materion rhyngwladol
- Datblygu cynaladwy
- Twristiaeth
- Trafnidiaeth
- Y Gymraeg

## Rhaglen Llywodraeth Cymru – Ble a sut mae gwaith ieuenctid yn cyfrannu

Mae gan waith ieuenctid egwyddorion, dulliau ac arferion proffesiynol unigryw fel sydd wedi'u diffinio yn 'Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion'. Felly, mae cyfle iddo gyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad cynaladwy Cymru a lles y cenedlaethau sydd i ddod. Gan hynny, fe ddylai fod wrth wraidd y gwasanaethau a dylai fod pwyslais, cymorth ac adnoddau priodol iddo.

Mewn byd cymhleth ac anodd, mae hawl gan bobl ifanc i ddisgwyl gwasanaethau ieuenctid rhagorol, penodol, arbenigol a hygyrch sy'n cael eu cynnig gan weithwyr ieuenctid brwdfrydig a chymwysedig sydd wedi'u hyfforddi'n drylwyr.

Mae gwaith ieuenctid yn mynd rhagddo trwy amryw sefyllfaoedd a dulliau megis canolfannau i'r ifainc, gwaith allgymorth yn y strydoedd, gwaith ymhlith amrywiaeth helaeth o drigolion, gwaith preswyl a phethau penodol i rai carfanau mewn amryw fannau gan gynnwys ysgolion, trefn cyfiawnder ieuenctid a chyrff iechyd. Dyma bum piler gwaith ymhlith yr ifainc yng Nghymru, fel sydd wedi'u pennu yn 'Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion':

- Addysgu
- Mynegi
- Cyfranogi
- Cynnwys
- Grymuso

Er ei bod yn siomedig nad yw gwasanaethau ieuenctid y wlad wedi'u crybwyll yn y ddogfen, mae gwaith ymhlith yr ifainc yn cyfrannu mewn modd uniongyrchol ac anuniongyrchol ar draws holl agweddau a phynciau Rhaglen Llywodraeth Cymru fel y gwelir yn y tabl isod.

| THEMA / PRIF GAMAU | CYFRANIAD UNION / ANUNIONGYRCHOL | | ER ENGHRAIFFT |
|---|---|---|---|
| **Twf a swyddi cynaladwy**<br>➢ Cynnal yr economi a busnes<br>➢ Gwella medrau pobl Cymru ar gyfer swyddi<br>➢ Gwella'r isadeiledd<br>➢ Creu economi gynaladwy heb lawer o garbon | | ✓ | • Mae pobl ifanc yn gallu ysgwyddo rôl arwain neu gynorthwyo trwy gynlluniau arweinyddion iau ac addysg cymheiriaid.<br>• Meithrin medrau ehangach megis cyfathrebu, gweithio fel tîm, trin a thrafod pobl ac arwain.<br>• Annog pobl ifanc i gyflawni rôl gadarnhaol yn eu cymunedau nhw. |
| **Gwasanaethau cyhoeddus**<br>➢ Helpu'r gwasanaethau cyhoeddus i wella'n barhaus<br>➢ Gofalu bod ein harian yn helpu i gynnig gwasanaethau'n fwy effeithiol<br>➢ Gofalu bod y gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd | ✓ | | • Mae pobl ifanc yn ymwneud â llywodraethu a rheoli llawer o gylchoedd i'r ifainc gan gynnwys gweithredu'n ymddiriedolwyr.<br>• Trafodaethau sy'n arwain at wella gwasanaethau.<br>• Cynghorau'r ifainc, cylchoedd ymgynghorol ac arolygon lleol.<br>• Ymweld â San Steffan, Bae Caerdydd a'r cyngor lleol. |

| THEMA/PRIF GAMAU | CYFRANIAD<br>UNION/ANUNIONGYRCHOL | | ER ENGHRAIFFT |
|---|---|---|---|
| Addysg<br>➢ Gwella profiad y blynyddoedd cynnar<br>➢ Gwella cyrhaeddiad yn yr ysgolion<br>➢ Datblygu addysg Gymraeg<br>➢ Gwella addysg bellach ac uwch | ✓ | | • Mae cydnabyddiaeth bod gwaith ieuenctid yn ffordd o ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gan arwain at ddeilliannau eglur a gweladwy megis dysg achrededig.<br>• Cyfleoedd i ddatblygu'n gymdeithasol ac yn bersonol gan gynnwys hyder, cymhelliant a'r gallu i benderfynu drostyn nhw eu hunain.<br>• Cyfleoedd i ddysgu sut mae datblygu timau a meithrin medrau rheoli.<br>• Cyfleoedd i fentro mewn amgylchiadau diogel.<br>• Mae pobl ifanc yn cael ysgwyddo rôl arwain neu gynorthwyo trwy gynlluniau arweinyddion iau ac addysg cymheiriaid.<br>• Profiadau i ehangu'r meddwl, codi dyheadau a meithrin cadernid<br>• Mae rhai mudiadau i'r ifainc wedi pennu hybu'r Gymraeg yn amcan penodol. |

| THEMA / PRIF GAMAU | CYFRANIAD<br>UNION / ANUNIONGYRCHOL | | ER ENGHRAIFFT |
|---|---|---|---|
| **Gofal iechyd ar gyfer yr 21$^{ain}$ ganrif**<br>➢ Gwella deilliannau ym maes iechyd trwy ofalu bod ansawdd a diogelwch gwasanaethau'n well<br>➢ Gwella mynediad a phrofiad y cleifion<br>➢ Atal iechyd gwael a lleddfu anghydraddoldeb ym maes iechyd | | ✓ | • Rhaglenni bwyta'n iach.<br>• Addysg am yr amser a'r lle priodol ynglŷn â rhyw a pherthynas.<br>• Gwybodaeth a chynghorion cyfoes a chywir. |
| **Rhaglen 'Cefnogi Pobl'**<br>➢ Cryfhau llais a rheolaeth y defnyddwyr a'r cynhalwyr o ran y gwasanaethau sydd ar gael<br>➢ Gofalu bod pobl yn cael y cymorth priodol i fyw'n fodlon | ✓ | | • Prosiect meithrin hunan-barch a threchu bwlïaid.<br>• Gwasanaethau cyffredinol sydd ar gael i bawb rhwng 11 a 25 oed.<br>• Rhaglenni gweithio gyda chynhalwyr ifanc.<br>• Gweithgareddau meithrin hyder ymhlith yr ifainc.<br>• Datblygu cadernid. |
| **Cartrefi Cymru**<br>➢ Cynyddu'r cyflenwad a'r dewis<br>➢ Gwella'r ansawdd<br>➢ Gwella'r cymorth a'r gwasanaethau ym maes tai | | ✓ | • Prosiectau crefftau'r cartref, paentio ac addurno cymunedol, dramâu a chyngherddau.<br>• Mudiad arbenigol ar gyfer pobl ifanc ddigartref. |

| THEMA / PRIF GAMAU | CYFRANIAD UNION / ANUNIONGYRCHOL | | ER ENGHRAIFFT |
|---|---|---|---|
| Cymunedau mwy diogel<br>➢ Cwtogi ar droseddu ac ofn troseddu<br>➢ Lleddfu'r niwed yn sgîl camddefnyddio cyffuriau<br>➢ Lleihau ac atal troseddu ymhlith yr ifainc<br>➢ Gwella diogelwch mewn cymunedau | ✓ | | • Dysgu medrau 'meddal' a hanfodol i gynnal cymunedau.<br>• Tynnu sylw at beryglon cyffuriau ac alcohol.<br>• Deall sut mae helpu ei gilydd yn ôl anghenion.<br>• Cymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol.<br>• Prosiect gwella'r amgylchedd.<br>• Cynllun Gwobr Dug Caeredin. |
| Cydraddoldeb<br>➢ Hybu cyfleoedd cyfartal a mynd i'r afael ag anffafrio<br>➢ Cymunedau mwy cynhwysol a chydlynol | ✓ | | • Mae hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb a herio gorthrymder yn rhan ganolog o waith ieuenctid.<br>• Gwaith pontio cenhedloedd.<br>• Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth am faterion lesbiaid, hoywon, deurywiaid a thrawsrywiaid.<br>• Ymwybyddiaeth o faterion pobl anabl.<br>• Herio a threchu troseddau atgasedd/eithafiaeth.<br>• Arferion yn erbyn anffafrio.<br>• Meithrin hunan-barch a chadernid.<br>• Datblygu cynhwysiant cymdeithasol. |

| THEMA/PRIF GAMAU | CYFRANIAD UNION/ANUNIONGYRCHOL | | ER ENGHRAIFFT |
|---|---|---|---|
| | UNION | ANUNIONGYRCHOL | |
| **Trechu tlodi**<br>➢ Trechu tlodi ac amddifadedd<br>➢ Mynd i'r afael â diweithdra a chodi incwm pob cartref<br>➢ Gwella medrau pobl ifanc a'u teuluoedd<br>➢ Gwella iechyd a deilliannau addysgol plant, pobl ifanc a theuluoedd tlawd | ✓ | | • Rhoi cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan, beth bynnag fo'u cefndir.<br>• Ehangu'r meddwl a chodi dyheadau trwy gynnig profiadau newydd ac ymestynnol.<br>• Helpu pobl ifanc i ddatblygu gyrfaoedd trwy feithrin medrau ar gyfer swyddi.<br>• Ymwybyddiaeth o iechyd rhywiol.<br>• Gwaith ieuenctid yn yr ysgolion gan hyrwyddo ymgysylltu ymhlith yr ifainc.<br>• Cysylltiadau â chynlluniau gweithredu Rhaglen 'Cymunedau'n Gyntaf'.<br>• Helpu i gwtogi ar nifer y merched sy'n feichiog yn eu harddegau. |
| **Cymunedau gwledig**<br>➢ Cymunedau gwledig ffyniannus<br>➢ Gofalu bod band eang cyflym a gwasanaethau digidol newydd ar gael i gymunedau gwledig<br>➢ Gwella gwasanaethau cyhoeddus i gymunedau gwledig | ✓ | | • Mae gwasanaethau ieuenctid yn cyfrannu'n fawr at gymunedau gwledig. Er enghraifft, hybu cynhwysiant cymdeithasol trwy Glybiau Ffermwyr Ifanc Cymru. |

| THEMA / PRIF GAMAU | CYFRANIAD UNION / ANUNIONGYRCHOL | | ER ENGHRAIFFT |
|---|---|---|---|
| **Yr amgylchedd a chynaladwyedd**<br>➢ Byw yn ôl ffiniau amgylcheddol a gweithredu ynglŷn â'r newid hinsoddol<br>➢ Diogelu ecosustemau iach<br>➢ Creu lleoedd cynaladwy i bobl | | ✓ | • Prosiectau amgylcheddol, cyfnewidfa ieuenctid.<br>• Gweithgareddau yn yr awyr agored: cerdded, gwersylla, rhwyfo, plannu coed, garddio, glanhau ardaloedd ac ati. |
| **Diwylliant a threftadaeth Cymru**<br>➢ Ehangu mynediad i'n diwylliant, ein treftadaeth a'n chwaraeon ni ac annog rhagor o bobl i'w mwynhau<br>➢ Cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn ein bywydau bob dydd | ✓ | | • Eisteddfodau, gweithdai drama, cyfnewidfeydd ieuenctid.<br>• Gweithgareddau a deunyddiau Cymraeg.<br>• Cyflawni gwaith ieuenctid a rhoi hyfforddiant a chyfleoedd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. |

## Casgliad

Mae gwaith ieuenctid yn cyfrannu'n fawr at lwyddiant Cymru trwy gysylltiadau cryf sydd wedi'u meithrin â phobl ifanc o'u gwirfodd ac yn ôl eu hanghenion nhw. Mae modd i waith ieuenctid gyflawni llawer mwy, hefyd.

Yn adroddiad blynyddol cyntaf Rhaglen Llywodraeth Cymru (Mehefin 2013), fe ddywedodd y Prif Weinidog mai swyddi, twf a threchu tlodi yw'r tair blaenoriaeth allweddol. Soniodd am sefyllfa ariannol sy'n prysur newid a'r cyd-destun newydd rydyn ni ynddo wrth wynebu'r heriau hyn.

Mewn ymchwil ar ran Comisiwn Archwilio Lloegr yn 2013, mae Prifysgol Caerefrog wedi sôn am 'brosiectau ieuenctid eithaf rhad sy'n arbed llawer o arian gwladol ac, o'u torri nhw, fydd yn arwain at gynnydd mawr yng ngwariant y wladwriaeth'. Mae amcangyfrif mai £104,300 yw cost y pen drwy gydol y cyfnod mae pobl ifanc heb astudio, gweithio na chael eu hyfforddi.

Er bod cydnabyddiaeth bod gwasanaeth ieuenctid y wlad yn cyflawni gwaith da o ran ymgysylltu â phobl ifanc anniddig a'u helpu i ddatblygu gyrfaoedd, mae'i rôl ehangach o ran cynnig gweithgareddau i'r ifainc i gyd yn hanfodol i'w rhwystro nhw rhag cyrraedd sefyllfa o'r fath. Mae rôl allweddol i'r gwaith sy'n mynd rhagddo trwy wasanaethau agored o ran gofalu bod yr ifainc i gyd yn ymgysylltu â gwaith ieuenctid ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau nhw. Er ei fod yn gweithio yn ôl egwyddorion craidd, mae gan ein gwasanaeth ieuenctid hanes o ymateb yn hyblyg i anghenion pobl ifanc yn ogystal â thraddodiad o gydweithio llwyddiannus rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol er lles pobl ifanc.